# Canllawiau i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar Godau Ymarfer Comisiynu

Wrth gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol

Cyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2025

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad ........................................................................................................... 3

2. Canllawiau ........................................................................................................... 4

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae cynyrchiadau annibynnol yn elfen bwysig o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (‘PSM’). Maent yn gwneud cyfraniad hanfodol at yr amrywiaeth eang o gynnwys creadigol ac o ansawdd uchel sydd ar gael gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd ar draws y DU. Mae’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi ac yn dibynnu ar y sector cynhyrchu annibynnol yn y DU i gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy’n diwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd ac sy’n cynrychioli amrywiaeth y DU.

1.2 Mae’r berthynas hon yn cael ei goruchwylio drwy reoleiddio. Rhaid i’r BBC, S4C, a’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (trwyddedeion Channel 3, Channel 4 Television Corporation (‘Channel 4’) a Channel 5) (at ei gilydd y ‘darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus’) fodloni cwotâu sydd â gofynion o ran faint o gynyrchiadau annibynnol maen nhw’n eu darlledu a faint maen nhw’n ei wario arnynt. Rhaid i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus lunio Cod Ymarfer ('y Cod') sy’n nodi’r egwyddorion y bydd yn cydymffurfio â nhw wrth gomisiynu cynyrchiadau annibynnol. Rhaid i’r Cod fodloni gofynion statudol penodol ac ystyried ein canllawiau ar y materion hyn.

1.3 Mae’r canllawiau hyn a Chodau Ymarfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol i gynyrchiadau annibynnol sy’n cael eu comisiynu ar gyfer sianel(i) gwasanaeth cyhoeddus y darlledwyr hyn neu ar gyfer eu chwaraewyr ar-alw dynodedig (pan fo'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn bwriadu i’r cynnwys gyfrif tuag at fodloni cwotâu rhaglenni o gynyrchiadau annibynnol).

1.4 Rydym yn cydnabod y gall y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, wrth gomisiynu cynnwys o dan y Cod, ofyn am hawliau i’w alluogi i ddarparu’r cynnwys ar wasanaethau eraill y mae’n darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus arnynt, fel sianeli darlledu eraill a gwasanaethau ar-lein. Felly, bwriedir i’r canllawiau hyn weithredu’n hyblyg er mwyn cefnogi gallu’r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu cynnwys yn y ffordd fwyaf addas i ddiwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd ledled y DU.

1.5 Yn rhan nesaf ein canllawiau, rydym yn nodi manylion y fframwaith cyfreithiol sydd mewn grym, gan gynnwys ein dyletswyddau a rôl ac amcan ein canllawiau. Yna, rydym yn nodi’r wyth maes allweddol y dylai’r Codau roi sylw iddynt.

# 2. Canllawiau

## Y fframwaith cyfreithiol

### Ein dyletswyddau a rôl ein canllawiau

2.1 Mae gofyn i ni gyhoeddi canllawiau i gynorthwyo darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i lunio eu Codau ('y Canllawiau').[1] Diben y Canllawiau yw cynnig arweiniad cyffredinol ac ni ddylent nodi telerau penodol i'w cynnwys yn y cytundebau comisiynu y mae'r Canllawiau'n berthnasol iddynt.

2.2 O dan eu fframweithiau rheoleiddio perthnasol, rhaid i God pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus nodi'r egwyddorion y bydd yn eu dilyn wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol. Mae diffiniad o 'gynhyrchiad annibynnol' i'w weld mewn Gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 277 y Ddeddf.[2]

2.3 Yn ogystal, dylai'r Codau sicrhau, yn y modd a ddisgrifir yn y Canllawiau:

a) bod amserlen resymol yn cael ei rhoi ar gyfer negodi cynhyrchiad annibynnol sy'n cael ei gomisiynu ac ar gyfer cytuno ar gytundeb rhwymol;
b) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o eglurder, pan gomisiynir cynhyrchiad annibynnol, ynghylch y gwahanol gategorïau o hawliau i ddarlledu, neu i ddefnyddio neu fanteisio ar y cynhyrchiad a gomisiynir, pan fyddant yn cael eu gwaredu;
c) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o dryloywder ynghylch y symiau sydd i'w talu mewn perthynas â phob categori o hawliau;
d) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod trefniadau boddhaol mewn grym ynghylch hyd a natur ecsgliwsif yr hawliau hynny;
e) bod gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer adolygu'r trefniadau a fabwysiadwyd yn unol â'r cod ac ar gyfer dangos cydymffurfiaeth ag ef;
f) mae'r gweithdrefnau hynny'n cynnwys gofynion ar gyfer monitro defnydd y cod ac ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Ofcom;
g) gwneir darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau sy'n codi mewn perthynas â darpariaethau'r cod (drwy gymrodeddu annibynnol neu fel arall) mewn ffordd sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol; a
h) bod unrhyw wybodaeth o'r fath am weithrediad y cod, fel y bo'n briodol ym marn Ofcom, yn cael ei rhoi i'r rheini sy'n creu cynyrchiadau annibynnol a gaiff eu comisiynu yn unol â'r cod.[3]

---

[1] Adran 285 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfryngau 2024 (Deddf Cyfryngau) (mewn perthynas â thrwyddedeion Channel 3, Channel 4 a Channel 5); paragraff 10 o Ran 2 o Atodlen 12 y Ddeddf (mewn perthynas ag S4C); ac mewn perthynas â'r BBC, adran 198 o'r Ddeddf a pharagraff 8 o Atodlen 3 y Cytundeb Fframwaith (gweler hefyd y diwygiad a wneir gan y Ddeddf Cyfryngau i baragraff 1 o Ran 1 i Atodlen 12 y Ddeddf). Yn y Canllawiau hyn, dylid dehongli cyfeiriadau at adran 285 o'r Ddeddf fel pe baent yn cynnwys y darpariaethau perthnasol a nodir uchod i'r graddau y maent yn ymwneud ag S4C a'r BBC.

[2] Gweler Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (legislation.gov.uk) Mae'r Llywodraeth yn cynnig dirymu'r ddeddfwriaeth hon a'i disodli â rheoliadau newydd, sef y Rheoliadau Cynhyrchu Annibynnol Darlledu 2025 drafft, a gyhoeddwyd ar 6 Mai 2025.

[3] Adran 285 o'r Ddeddf.

2.4 Yn y ddogfen hon, rydym yn darparu canllawiau ar gyfer pob un o'r darpariaethau hyn. Er bod y darpariaethau hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer yr hyn sydd i'w gynnwys yn y Cod, nid oes rhaid ei gyfyngu i gwmpas y darpariaethau hyn yn unig.

2.5 Mae'r Cod yn berthnasol pan fydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn comisiynu cynhyrchiad annibynnol i'w gynnwys:-

a) ar ei brif sianel(i) gwasanaeth cyhoeddus[4] neu

b) ar ei chwaraewr ar-alw[5] sydd wedi'i ddynodi o dan y Ddeddf

a phan fydd y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn bwriadu i'r cynnwys a gomisiynir cyfrif tuag at gwotâu rhaglenni o gynyrchiadau annibynnol.

2.6 Hefyd, mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer o dan y Ddeddf i wneud gorchymyn i ymestyn cwmpas y Cod i gynnwys gwasanaethau clyweledol eraill.

2.7 Wrth lunio ein Canllawiau, rydym wedi gweithredu yn unol â'n prif ddyletswydd yn adran 3(1) y Ddeddf i hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol, wrth gyflawni ein swyddogaethau.

2.8 Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae'n rhaid i ni hefyd wireddu'r amcanion yn adran 3(2) y Ddeddf, gan gynnwys: "*bod ystod eang o wasanaethau teledu... ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac wedi'u cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau*" ac y "*cynhelir lluosogrwydd digonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu ... gwahanol*". Rydym hefyd wedi ystyried y materion yn adran 3(4), gan gynnwys:

- y dymuniad i hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU;
- y dymuniad i hyrwyddo cystadleuaeth yn y marchnadoedd perthnasol; a'r
- dymuniad i annog buddsoddi ac arloesi yn y marchnadoedd perthnasol.

2.9 Mae gan Ofcom y pŵer i fynnu bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyflwyno eu Codau drafft ac unrhyw ddiwygiadau iddynt i Ofcom eu cymeradwyo. Wrth roi ein sêl bendith, byddwn yn ystyried gofynion adran 285 a'n dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 y Ddeddf, fel y nodir uchod.

2.10 Mae gofyn i ni ymgynghori â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, y rheini sy'n creu cynyrchiadau annibynnol (neu bobl sy'n ymddangos i Ofcom eu bod yn eu cynrychioli), y BBC, ac S4C ynghylch unrhyw ddiwygiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i'r canllawiau hyn.[6]

---

[4] Y sianeli hyn yw holl sianeli teledu'r BBC, S4C, pob un o wasanaethau rhanbarthol Channel 3 sy'n drwyddedeion Channel 3, Channel 4 a Channel 5.

[5] Mae chwaraewr ar-alw dynodedig – sy'n cael ei alw'n wasanaeth rhaglenni rhyngrwyd (IPS) – yn cynnwys IPS a ddarperir gan y BBC a, phan fo Ofcom yn ystyried ei fod yn briodol, IPS a ddarperir gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus arall (neu berson sy'n gysylltiedig â'r darlledwr hwnnw) sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn Adran 362AA(3) i (5) y Ddeddf. Mae IPS dynodedig yn elwa o amlygrwydd ac argaeledd ar setiau teledu cysylltiedig sy'n cael eu rheoleiddio.

[6] Adran 285(6)(c) o'r Ddeddf.

## Amcan y Canllawiau hyn

2.11 Wrth ystyried y swyddogaethau a'r dyletswyddau hyn, cylchoedd gwaith diwygiedig y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys eu gallu i ddarparu eu gwasanaethau ar draws amrywiaeth o wasanaethau clyweledol), a'n prif nod wrth reoleiddio'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo buddiannau gwylwyr, ein hamcan lefel uchel ar gyfer y Canllawiau yw: cefnogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol a'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus; diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd gwahanol ar draws y DU; a bodloni eu rhwymedigaethau cwota mewn perthynas â chynyrchiadau annibynnol.

2.12 Wrth ddiwygio eu Codau a'u defnyddio mewn trafodaethau negodi cynyrchiadau annibynnol sy'n cael eu comisiynu, dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gadw mewn cof bod angen:

1. fframwaith hyblyg sy'n niwtral o ran llwyfan a thechnoleg;
2. eglurder ynghylch y broses gomisiynu, sut caiff hawliau eu dyrannu rhwng darlledwyr a chynhyrchwyr, a'r defnydd o lwyfannau dosbarthu gwahanol;
3. peidio ag ystumio'r penderfyniad comisiynu fel ei fod rhwng cynhyrchwyr mewnol ac allanol;
4. cynnal yr elfen dosbarthiad ecsgliwsif sy'n ofynnol gan ddarlledwyr yn y brif drwydded, ond hefyd cadw'r cyfle i gynhyrchwyr allu manteisio'r eildro;
5. hybu'r defnydd o amrywiaeth o wasanaethau clyweledol er mwyn dosbarthu'r cynnwys, gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd ledled y DU ag sy'n ymarferol; a
6. hyrwyddo buddiannau gwylwyr, drwy gefnogi buddsoddiad ac arloesedd yn y cynnwys sydd ar gael i wylwyr, a'i ddefnyddio a'i ddosbarthu'n effeithlon.

# Materion y dylai'r Codau roi sylw iddynt

2.13 Trown yn awr at y materion allweddol y bydd pob Cod yn mynd i'r afael â nhw.

## a. Amserlenni rhesymol ar gyfer negodi a chytuno ar gytundebau rhwymol

2.14 Un o amcanion pwysig pob Cod yw sicrhau proses glir a thryloyw ar gyfer comisiynu. Yn unol â hynny, dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nodi: eu dull cyffredinol o ymdrin â'r broses gomisiynu yn eu Cod neu ddogfennau cysylltiedig ar eu gwefan (a chynnwys y dolenni gwe berthnasol i ddogfennau o'r fath yn eu Cod); gwahanol gamau'r broses gomisiynu; amserlenni rhesymol ar gyfer pob cam o'r broses gomisiynu; a phwy sy'n gyfrifol o fewn y sefydliad ar gyfer delio â hyn. Dylid ei gwneud yn glir p'un a oes amserlenni neu brosesau gwahanol ar waith gyda gwahanol genres o raglenni.

2.15 Dylai darparwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd egluro a ydynt yn bwriadu rhoi rhagor o ganllawiau am y broses gomisiynu, gan gynnwys amserlen fanylach. Dylai cynhyrchwyr allu cael gafael ar y canllawiau manwl hyn yn rhwydd (er enghraifft, ar ffurf Atodiad neu ddolen we). Gallai'r canllawiau manylach hyn gynnwys gwybodaeth am gamau penodol yn y broses gomisiynu, fel y cyfnod amser rhwng cyflwyno cynnig datblygu a derbyn ymateb, y cyfnod amser ar ôl cymeradwyo'r comisiwn er mwyn llunio'r fanyleb olygyddol derfynol, a'r amserlen arfaethedig ar gyfer ymateb i gynigion sydd wedi'u gwrthod.

2.16 Dylai Cod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus nodi sut bydd yn sicrhau bod y cyfrifoldebau dros gomisiynu rhaglenni yn cael eu gwahanu'n ddigonol oddi wrth y gwaith o reoli a gweithredu gweithgareddau cynhyrchu mewnol, os ydynt yn bodoli'n fewnol. Byddai'r asesiad o ba mor ddigonol yw'r rhaniad hwn yn dibynnu ar y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus dan sylw e.e. gallai ddibynnu ar ffactorau fel perthnasedd neu natur busnes cynhyrchu'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a'r posibilrwydd o wrthdaro.

## b. Eglurder digonol ynghylch y gwahanol gategorïau o hawliau i ddarlledu

2.17 Un egwyddor allweddol sy'n sail i'n pwrpas ar gyfer y Codau yw y dylai cynhyrchwyr allu cadw'r hawliau i'w rhaglenni oni bai fod y rhain yn cael eu gwerthu'n benodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a/neu i bartïon eraill. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu caffael yr hawliau angenrheidiol i gyflawni eu cylch gwaith ac i ddiwallu anghenion newidiol cynulleidfaoedd.

2.18 Gelwir yr hawliau a roddir yn y drwydded i'r darlledwr (y 'drwydded sylfaenol') yn hawliau sylfaenol. Gallant hefyd gwmpasu'r cyfnod detholusrwydd y cytunwyd arno ar gyfer 'dal yn ôl' rhaglen, gan atal y cynhyrchydd rhag gwerthu hawliau i sicrhau bod y cynnwys ar gael ar sianeli eraill yn y DU neu wasanaethau ar-alwad. Cyfeirir at hawliau y tu allan i'r drwydded sylfaenol fel hawliau eilaidd a gall y rhain gynnwys: yr hawl i werthu a dosbarthu cynnwys yn rhyngwladol; yr hawl i werthu'r fformatau cynnwys i'w haddasu mewn marchnadoedd rhyngwladol; a'r hawl i ddarlledu cynnwys ar sianeli neu wasanaethau ar-alw heblaw'r sianel gomisiynu wreiddiol neu'r chwaraewr ar-alw dynodedig, ar ôl unrhyw gyfnod unigryw.

2.19 Dylai Cod y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gynnwys datganiad clir o'r prif hawliau y mae'r darlledwr yn bwriadu eu caffael pan fydd yn comisiynu cynhyrchiad annibynnol. Dylai'r Cod nodi sut y dylid defnyddio a manteisio ar yr hawliau sy'n cael eu caffael, er enghraifft a yw'r hawliau'n ymwneud â'r darllediad ar y brif sianel gwasanaeth cyhoeddus a'r rhyddhau ar y chwaraewr ar-alw dynodedig ac o bosibl gwasanaethau perthnasol eraill y mae'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn eu defnyddio i gyflawni ei gylch gwaith. Byddai angen i'r Cod fynd i'r afael ag unigrywiaeth a hyd y rhain a hawliau eraill o fewn cyfnod y drwydded (gweler isod).

2.20 Dylai'r Cod hefyd nodi'r egwyddorion o ran sut bydd rhaglenni ar-alw, ailddarllediadau ar deledu llinol, cyfresi sy'n dychwelyd a rhaglenni cysylltiedig (ar yr un thema, naratif neu agwedd) yn cael eu trin yn ystod cyfnod y drwydded.

2.21 Gall y Cod gadw hawl y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus i ailedrych ar gwmpas yr hawliau sylfaenol wrth i lwyfannau dosbarthu newid ac wrth i alw neu anghenion cynulleidfaoedd newid.

2.22 Dylai'r Cod ymwneud yn bennaf â chynyrchiadau annibynnol sy'n cael eu comisiynu i'w darlledu ar brif sianeli'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus (neu eu rhyddhau ar chwaraewr ar-alw dynodedig[7]).

2.23 Bydd cynyrchiadau annibynnol a gomisiynir gan sianel neu wasanaeth arall (e.e. sianel menter ar y cyd) ond y bwriedir eu darlledu ar y brif sianel gwasanaeth cyhoeddus neu eu

[7] Pan fyddwn yn cyfeirio at fod ar gael ar chwaraewr ar-alw dynodedig, mae hyn yn golygu y bwriedir i'r cynnwys gael ei gyfrif tuag at gwota'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus o ran cynyrchiadau annibynnol.

rhyddhau ar chwaraewr ar-alw dynodedig darlledwrgwasanaethy cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Cod. Yn yr un modd, bydd cynyrchiadau annibynnol hefyd yn ddarostyngedig i'r Cod os ydynt yn cael eu darlledu am y tro cyntaf ar sianel eilaidd sydd dan berchnogaeth lwyr ond y bwriedir iddynt gael eu hailddarlledu ar y prif wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus (neu fod ar gael chwaraewyr ar-alw dynodedig), a lle mae'r gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi talu rhan fawr o'r costau[8].

2.24 Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn atal y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rhag ceisio datblygu trefniadau ar gyfer defnyddio cynyrchiadau annibynnol, a gomisiynir ar gyfer sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus neu chwaraewyr ar-alw dynodedig, ar lwyfannau eraill neu ar sianeli sydd dan berchnogaeth lwyr. Os felly, dylai'r nodi'r dull a ddefnyddir ar gyfer trefniadau o'r fath.

2.25 Fel rhan o'r comisiwn gwreiddiol, efallai y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn disgwyl gallu caffael hawliau i'w defnyddio at ddibenion hyrwyddo (e.e. clipiau, rhag-ddangosiadau, deunydd ar y we ac ati). Dylai'r Cod sicrhau bod tryloywder ynghylch sut y dylid defnyddio'r hawliau a gafwyd yn unol â'r Cod.

2.26 Dylai'r Cod gadarnhau, na fydd trafodaethau negodi am gaffael hawliau sylfaenol a manteisio ar hawliau o'r fath yn y brif drwydded yn gysylltiedig ag unrhyw drafodaethau negodi am hawliau ar gyfer manteisio dilynol. Drwy gytundeb, mae rhai categorïau o hawliau eisoes yn tueddu i fod yn nwylo'r cynhyrchydd e.e. hawliau'r eildro yn rhyngwladol a hawliau dros nwyddau. Ni fyddem yn disgwyl i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio ymestyn cwmpas eu rheolaeth ynghylch y ffordd y manteisir ar hawliau o'r fath y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y brif drwydded.

2.27 Ni ddylai'r Cod bennu trefniant cyllido penodol na chaniatáu unrhyw fwndelu hawliau'n awtomatig rhwng ecsbloetio cynradd ac eilaidd. Ni ddylai fod unrhyw delerau mewn contractau sy'n eu gwneud yn amod (mewn gwirionedd neu i bob pwrpas) ar dderbyn bargen fwndelu gan gynhyrchwyr neu ddefnyddio cangen ddosbarthu'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ei hun.

2.28 Ni ddylai'r Cod atal darlledwr gwasanaeth cyhoeddus rhag caffael hawliau gwahanol neu ychwanegol os ydynt yn dymuno gwneud hynny a phe byddai'r cynhyrchydd annibynnol yn dymuno eu darparu. Dylai darlledwr gwasanaeth cyhoeddus bob amser allu ceisio sicrhau mwy o hawliau yn amodol ar drafodaethau negodi masnachol. Fodd bynnag, ni ddylai darlledwr gwasanaeth cyhoeddus geisio sicrhau darpariaeth "hawliau cyfatebol" na darpariaethau sydd â'r effaith honno.

## c. Tryloywder digonol ynghylch y symiau i'w talu ar gyfer pob categori hawl

2.29 Lluniwyd y ddarpariaeth hon i sicrhau bod gan gynhyrchydd rywfaint o wybodaeth am yr ystod o brisiau a'r tariffau dangosol y byddai'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus fel arfer yn eu cynnig ar gyfer genres penodol o raglenni a'r ffactorau y mae darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn debygol o'u hystyried wrth negodi prisiau. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael cyn cynnal trafodaethau.

[8] Noder bod y Llywodraeth yn cynnig disodli Gorchymyn 1991. Mae'r sefyllfa'n parhau heb ei newid o dan y Rheoliadau Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol)v fel y'u drafftiwyd.

2.30 Er mwyn darparu digon o dryloywder, dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus amlinellu yn y Cod fanylion y fethodoleg gyffredinol y byddant yn ei defnyddio wrth lunio tariffau dangosol. Dylai'r fethodoleg fod yn ddigon manwl i alluogi'r cynhyrchydd i asesu'r dull y bydd y darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn ei ddefnyddio i brisio gwahanol gategorïau o hawliau. Dylai'r Cod hefyd nodi'r trefniadau y bydd y darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn eu defnyddio i gyhoeddi rhestr o'r ystodau tariffau dangosol ar gyfer gwahanol genres/is-genres o raglenni, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer hawliau ar wahanol lwyfannau.

2.31 Fel y nodir uchod, dylai'r Cod hefyd nodi'r ffactorau y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu hystyried wrth negodi'r prisiau gwirioneddol ar gyfer comisiynau unigol. Bydd y prisiau terfynol ar gyfer comisiynau penodol yn fater i'w negodi'n fasnachol.

2.32 Dylai'r fethodoleg a ddefnyddir gan y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus wrth gyfrifo ei ystodau tariffau dangosol fod yn ddigon hyblyg i ystyried newidiadau yng ngwerth yr hawliau sylfaenol yn y rhaglen sy'n cael ei phrynu ganddo.

2.33 Pan nad oes llawer o werth i raglen ar ôl iddi gael ei darlledu fel nad oes gan y cynhyrchydd fawr o obaith, os o gwbl, o gynhyrchu rhagor o refeniw o werthu hawliau eilaidd, dylai'r ystodau tariffau dangosol fod yn ddigon eang i allu cwmpasu'r costau cynhyrchu llawn arferol ar gyfer rhaglenni o'r fath. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod, ar adeg gwneud y comisiwn, efallai nad yw'n glir faint o werth y gellid ei briodoli i fanteision eilaidd a manteision dilynol. Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr allu cytuno ar fecanweithiau rhannu risg priodol i ddelio â'r ansicrwydd hwn. Felly, ni ddylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio lleihau'r pris y maent yn ei dalu am raglen wrth geisio rhagweld datblygiadau posibl yn y farchnad.

## d. Trefniadau boddhaol ynghylch hyd yr hawliau a hawliau ecsgliwsif

2.34 Dylai'r Cod nodi hyd y drwydded gyffredinol y mae darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chaffael. Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael hawl awtomatig i ymestyn cyfnod y drwydded unwaith yn unig. Dylai unrhyw estyniadau dilynol fod ar delerau a negodir yn fasnachol yn amodol ar anghenion rhaglenni cysylltiedig a chyfresi sy'n dychwelyd.

2.35 Dylai'r Cod nodi pa mor hir yw'r hawliau a gafwyd ac unrhyw gyfnod dal yn ôl mewn perthynas â'r hawliau sydd wedi'u caffael. Nid yw'n wir fod rhaid i gyfnod y ffenestri hyn fod yr un peth ar gyfer pob genre neu gategori o hawliau, ond lle mae'r hyd yn amrywio, dylid gwneud hyn yn glir.

2.36 Pan fydd categorïau o hawliau sy'n destun trefniadau dal yn ôl, dylai'r Cod nodi'n glir y bydd y darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn sefydlu polisi ffurfiol ar gyfer dal yn ôl/rhyddhau'n gynnar. Bydd y polisi hwn yn nodi'n glir yr egwyddorion y bydd y darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn eu dilyn wrth ystyried ceisiadau i hepgor ei drefniadau dal yn ôl ecsgliwsif er mwyn galluogi'r cynhyrchydd i gael manteision eilaidd yn gynnar. Nid oes angen i'r polisïau ffurfiol fod yn rhan o'r Codau eu hunain, ond un egwyddor sylfaenol yw y dylid bwriadu i bolisïau o'r fath alluogi manteisio'n gynnar yn hytrach nag atal hynny.

2.37 Er na ddylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus geisio cynnwys hawliau am byth fel mater o drefn, gallai trafodaethau masnachol rhwng cynhyrchydd a darlledwr ddod i fwcwl gyda'r cynhyrchydd yn cytuno i neilltuo'r holl hawliau mewn rhaglen i'r darparwr gwasanaeth cyhoeddus. Ni ddylai'r Cod atal trefniadau o'r fath ond dylent fod yn drefniadau a negodwyd yn hytrach na hawl awtomatig.

2.38 Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hawl ddilys i geisio diogelu gwerth eu brand wrth gyflawni eu cylch gwaith ac mae ganddynt hawl i rywfaint o elfen ecsgliwsif o ran yr hawliau maent yn eu caffael i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, ni ddylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddefnyddio hyn i atal cynhyrchwyr a thrydydd parti rhag datblygu marchnadoedd newydd na niweidio cystadleuaeth.

## e. Gweithdrefnau ar gyfer adolygu trefniadau'r Cod a chydymffurfiad

2.39 Er mwyn sicrhau bod y Codau'n cael eu goruchwylio a'u monitro'n effeithiol, mae angen systemau priodol ar waith. Rydym yn disgwyl i'r Codau greu mecanwaith lle bydd y darparwr gwasanaeth cyhoeddus ac Ofcom yn adolygu gweithrediad y Cod.

2.40 Os bydd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn dymuno addasu ei God, neu ddogfen gysylltiedig lle byddai hyn yn effeithio ar y wybodaeth y mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ei darparu o dan y Canllawiau hyn, rhaid iddynt ofyn am sêl bendith Ofcom. Petai cais o'r fath yn cael ei wneud, byddwn yn ystyried a yw'r Cod yn cyd-fynd â darpariaethau'r Canllawiau hyn. Wrth wneud hynny, byddwn yn ymgysylltu â'r darparwr gwasanaeth cyhoeddus i ddeall manylion y newidiadau arfaethedig. Byddwn hefyd yn ystyried a yw'r materion a godir gan y darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn golygu bod rhaid i ni ddiwygio'r Canllawiau. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried ei bod yn briodol i ni ddiwygio'r Canllawiau o bryd i'w gilydd y tu allan i'r amgylchiadau hyn.

## f. Gofynion ar gyfer monitro ac adrodd i Ofcom

2.41 Er mwyn sicrhau bod y Codau'n cael eu goruchwylio a'u monitro'n effeithiol, rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gasglu, cofnodi a chadw digon o wybodaeth i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r darpariaethau a nodir yn y Canllawiau. Dylid cadw'r wybodaeth hon am o leiaf dair blynedd. Gallai enghreifftiau o'r math o wybodaeth gynnwys y prisiau a dalwyd am gomisiynau a'r ystodau tariffau dangosol perthnasol, a hyd yr hawliau.

## g. Datrys anghydfodau'n briodol

2.42 Dylai'r Cod ddarparu ar gyfer mecanwaith i ddatrys anghydfod os bydd anghydfod yn codi rhwng darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol, ond dim ond yn ymwneud â defnyddio'r Cod ei hun yn hytrach na thelerau negodi penodol.

2.43 Ni ragwelir y bydd gan Ofcom rôl fel canolwr terfynol mewn unrhyw anghydfod. Golyga hynny, er enghraifft, os nad yw cyfryngu wedi datrys yr anghydfod, efallai y bydd angen i ddarparwr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchydd fod yn barod i gymryd rhan mewn proses gyfryngu neu gymrodeddu annibynnol i setlo pethau. Dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ystyried y ffordd orau o sicrhau bod costau datrys yr anghydfod yn cael eu lleihau cymaint â phosib, fel nad yw cynhyrchwyr annibynnol llai dan anfantais oherwydd y gost o ddilyn unrhyw weithdrefnau o'r fath. Un posibilrwydd arall yw y gellid gwahodd cyfarwyddwr anweithredol darparwr gwasanaeth cyhoeddus i fod yn ganolwr terfynol mewn anghydfod.

## h. Rhoddir gwybodaeth briodol i gynhyrchwyr annibynnol am y Cod

2.44 Dylai'r darparwr gwasanaeth cyhoeddus dynnu sylw'r cynhyrchydd at ei God cyn dechrau trafodaethau negodi. Fel y nodir uchod, er enghraifft o dan a), dylai'r Cod gynnwys proses glir a thryloyw ar gyfer comisiynu.

2.45 Dylai Cod y darparwr gwasanaeth cyhoeddus a'r holl ddogfennau perthnasol fod ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch (gan gynnwys i'r rhai ag anabledd) ar wefan y darparwr gwasanaeth cyhoeddus. Rydym o'r farn bod rhanddeiliaid yng Nghymru yn gwerthfawrogi gallu cael mynediad at fersiwn Gymraeg o Godau'r darparwyr gwasanaeth cyhoeddus perthnasol yn y Gymraeg. Felly, rydym yn annog y darparwyr gwasanaeth cyhoeddus i gyhoeddi eu Codau yn y Gymraeg a'r Saesneg.